# Agenda - Y Cyfarfod Llawn

Lleoliad y cyfarfod:

**Siambr Hywel - Tŷ Hywel**

Dyddiad y cyfarfod:

Dydd Mawrth, 18 Tachwedd 2025

Amser y cyfarfod: 13.30

## 312 (v4)

Cynhelir y cyfarfod hwn ar ffurf hybrid, gyda rhai Aelodau yn Siambr Hywel, Tŷ Hywel ac eraill yn ymuno drwy gyswllt fideo.

### 1 Cwestiynau i'r Prif Weinidog

(45 munud)

Bydd y Llywydd yn galw ar arweinwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd i'r Prif Weinidog ar ôl Cwestiwn 2.

Gweld y Cwestiynau

### 2 Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

(30 munud)

Gweld y Datganiad a Chyhoeddiad Busnes

### 3 Datganiad gan y Dirprwy Brif Weinidog a'r Ysgrifennydd y Cabinet dros Newid yn yr Hinsawdd a Materion Gwledig: Storm Claudia

(45 munud)

### 4 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Deallusrwydd Artiffisial (AI) yng Nghymru

(45 munud)

### 5 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai: Cartrefi Fforddiadwy

(45 munud)

## 6 Datganiad gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi, Ynni a Chynllunio: Canlyniad yr Adolygiad Mewnol o Gymorth Busnes

(45 munud)

## 7 Datganiad gan y Gweinidog Addysg Bellach ac Uwch: Dysgu a Sgiliau yn y Carchar

(45 munud)

## 8 Rheoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025

(15 munud)

**NDM9048** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Asesiadau o'r Effaith ar Iechyd (Cymru) 2025 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 16 Medi 2025.

**Dogfennau ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

Ymateb y Llywodraeth i adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 9 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) (Rhif 2) 2025

(5 munud)

**NDM9049** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 2) (Cymru) 2025 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Hydref 2025.

**Dogfennau ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 10 Rheoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Cymru) (Rhif 3) 2025

(5 munud)

**NDM9050** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd, yn unol â Rheol Sefydlog 27.5, yn cymeradwyo bod y fersiwn ddrafft o Reoliadau Treth Trafodiadau Tir (Addasu Rhyddhad ar gyfer Safleoedd Treth Arbennig) (Rhif 3) (Cymru) 2025 yn cael ei llunio yn unol â'r fersiwn ddrafft a osodwyd yn y Swyddfa Gyflwyno ar 21 Hydref 2025.

**Dogfennau ategol:**

Adroddiad y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad

## 11 Dadl: Adroddiad Blynyddol 2024-25 Comisiynydd y Gymraeg

(60 munud)

**NDM9047** Jane Hutt (Bro Morgannwg)

Cynnig bod y Senedd:

Yn nodi Adroddiad Blynyddol 2024-25 Comisiynydd y Gymraeg.

Comisiynydd y Gymraeg: Adroddiad Blynyddol 2024-25

## 12 Cyfnod pleidleisio

Cynhelir Cyfarfod Llawn nesaf y Senedd am 13.30, Dydd Mercher, 19 Tachwedd 2025

Eitem 1

# Cwestiynau Llafar a gyflwynwyd ar 13/11/2025 i'w hateb ar 18/11/2025

Bydd y Llywydd yn galw ar lefarwyr y pleidiau i ofyn cwestiynau heb rybudd ar ôl cwestiwn 2.

## PRIF WEINIDOG

**Mike Hedges** *Dwyrain Abertawe*

1 OQ63419 **(e)**

Beth y mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i ddatblygu'r sector cydweithredol?

**Paul Davies** *Preseli Sir Benfro*

2 OQ63409 **(e)**

Beth mae Llywodraeth Cymru yn ei wneud i wella'r ddarpariaeth gwasanaethau iechyd ym Mhreseli Sir Benfro?

**Janet Finch-Saunders** *Aberconwy*

3 OQ63413 **(e)**

Pa gamau y mae'r Prif Weinidog yn eu cymryd i sicrhau bod cartrefi gofal yng ngogledd Cymru yn wydn yn ariannol?

**Sioned Williams** *Gorllewin De Cymru*

4 OQ63450 **(w)**

Sut mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi hawliau plant?

**Mark Isherwood** *Gogledd Cymru*

5 OQ63408 **(e)**

Pa gamau y mae Llywodraeth Cymru yn eu cymryd i leihau amseroedd aros y GIG yng Ngogledd Cymru?

**Carolyn Thomas** *Gogledd Cymru*

6 OQ63430 **(e)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar waith Llywodraeth Cymru gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru i wneud y broses o ailwneud cais am fathodyn glas yn fwy cyson ar draws awdurdodau lleol?

**Heledd Fychan** *Canol De Cymru*

7 OQ63439 **(w)**

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar yr hyn sydd wedi'i gyflawni gan y Llywodaeth dros y bum mlynedd ddiwethaf i leihau'r defnydd o agregau crai?

**Rhys ab Owen** *Canol De Cymru*

8

## OQ63416 (e)

Pa gynlluniau sydd gan Lywodraeth Cymru i gyflwyno neu gefnogi rhaglenni sgrinio antigen penodol i'r prostad ar gyfer dynion sydd â risg uwch o ganser y prostad?

**Russell George** *Sir Drefaldwyn*

9

## OQ63411 (e)

Sut mae Llywodraeth Cymru yn sicrhau bod cyn lleied â phosibl o anghyfleusterau i'r cyhoedd pan fydd ffyrdd ar gau ar gyfer gwaith cynnal a chadw hanfodol?

**Samuel Kurtz** *Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro*

10

## OQ63452 (e)

Sut y mae Llywodraeth Cymru yn cefnogi busnesau yng Ngorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro?

**Sian Gwenllian** *Arfon*

11

## OQ63417 (w)

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad am y cynllun i sefydlu rhwydwaith o gerbydau ymateb brys yng Ngwynedd?

**Tom Giffard** *Gorllewin De Cymru*

12

## OQ63451 (e)

A wnaiff y Prif Weinidog roi diweddariad ar ymgynghoriad Llywodraeth Cymru ar y rheol 182 diwrnod ar gyfer llety gwyliau?